# Cerddi 'Tirwedd a Thirlun'

Cyfle i gyfuno iaith a daearyddiaeth drwy ymchwilio i ardal a chreu cerddi disgrifiadol.

- Beth gallwn ei ddarganfod am dirwedd a thirlun ardal drwy edrych ar fap?
- Sut y gall map ein helpu i ddisgrifio'r lleoliad?
- Pa mor bwysig yw'r geiriau a ddefnyddiwn?


Wedi cwblhau y ddau weithgaredd isod, dylai fod gan y dysgwyr ddigon o gefndir a gwybodaeth i ysgrifennu cerdd syml.

**Gweithgaredd 1:** Trafodaethau dosbarth cyfan neu fesul grŵp

- Edrychwch ar fap o Gwm Celyn cyn y boddi. Trafodwch y nodweddion daearyddol penodol a welir yn y Cwm. Yna, trafodwch y nodweddion mwy cyffredinol a welir ar y map. Yn dilyn trafodaethau, cwblhewch *Taflen Gweithgaredd 1.*

**Gweithgaredd 2:** Mewn parau neu'n unigol.

- Astudiwch fap o Gwm Celyn cyn y boddi. Gosodwch sgwâr ar y map (a chanddo 4 triongl oddi mewn) o'r ardal yr hoffech ei hastudio. Gweler yr enghraifft isod:



Edrychwch ar bob un triongl yn ei dro gan nodi yr hyn a ddarganfyddwch ar *Taflen Gweithgaredd 2*

- Ychwanegwch ansoddeiriau i ymestyn y disgrifiad a chofiwch ddefnyddio'ch synhwyrau, e.e. A yw'n lle tawel/swnllyd? Beth a glywch? Beth gallwch ei gyffwrdd? Adeiladau? Glaswellt?, Dŵr?, Carreg? Defnyddiwch eich dychymyg!
- Ewch ati i greu cerdd gan ddefnyddio eich taflenni gwybodaeth i ddewis geirfa.
- Defnyddiwch y patrwm – I'r/Tua'r Gogledd/Dwyrain/De/Gorllewin gwelaf… gan ychwanegu o leiaf ddwy linell rhwng pob cyfeiriad.